PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES



# Deall Hawliau Plant

**Sut gall Rhieni gefnogi Hawliau Plant**

## Beth yw CCUHP?

Ydych chi wedi clywed am **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)?**?

Mae'n rhestr o'r hawliau sydd gan bob plentyn 0-18 oed.

Mae'r hawliau yma'n cael eu cyflwyno yn CCUHP; mae 54 o hawliau i gyd, ac maen nhw'n cael eu galw'n 'Erthyglau'.

Dogfen y cytunwyd arni'n rhyngwladol yw hon, sy'n cydnabod pwysigrwydd hawliau a rhyddid plant, ac sydd bob amser yn rhoi lles pennaf y plentyn yn gyntaf.

Mae hawliau'n sicrhau bod pawb ohonon ni'n cael ein trin yn deg, a'n bod ni'n gallu cyflawni hyd eithaf ein potensial. Mae gan blant **hawliau ychwanegol** o gymharu ag oedolion, oherwydd bod **angen mwy o amddiffyn** arnyn nhw, ac maen nhw'n **ddibynnol iawn** onar yr oedolion o'u cwmpas.

> **Yn y bôn, mae'n ymwneud â'r pethau mae ar bob plentyn eu hangen i dyfu i fyny'n Hapus, yn Iach ac yn Ddiogel.**

## Beth mae hynny'n ei olygu i rieni?

Fe wnaethon ni ofyn i rieni beth sydd ei angen ar blant i dyfu i fyny'n Hapus, yn Iach ac yn Ddiogel, a dyma oedd eu hymateb:

cariad
amgylchedd diogel
cynhesrwydd
awyrgylch hapus
cartref
ffiniau
teulu
addysg
cael eu clywed
bwyd
diogelwch

Roedd cysylltiad rhwng yr ymatebion a llawer o'r Erthyglau yn y confensiwn:

Mae '**teimlo'n ddiogel**' a '**diogelwch**' yn cysylltu ag Erthygl 19 o CCUHP, sy'n dweud '***na ddylai plant gael eu niweidio, ac y dylen nhw gael gofal a'u cadw'n ddiogel***'.

Mae '**teulu, cariad a chynhesrwydd**' yn cysylltu ag Erthygl 18, sy'n dweud '***Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb am fagu eu plant, a dylen nhw bob amser feddwl beth sydd orau i bob plentyn unigol***'.

Mae '**cael eu clywed**' yn cysylltu ag Erthygl 12 '***Hawl i ddweud beth rydych chi'n meddwl ddylai ddigwydd a chael gwrandawiad***'.

Ymhlith yr Hawliau Eraill mae:

- Hawl i fywyd
- Hawl i gael enw
- Hawl i gael addysg
- Hawl i ymlacio a chwarae



I ddarllen CCUHP yn llawn, ewch i: UN Convention on the Rights of the Child - UNICEF UK

## Beth gall rhieni wneud i gefnogi hawliau eu plentyn?

Fel rhiant, chi yw cefnogwr cryfaf hawliau eich plentyn. Chi sy'n nabod eich plentyn orau ac yn gwybod beth sydd ei angen arnyn nhw.

Fe wnaethon ni ofyn i rieni beth roedden nhw'n meddwl gallen nhw wneud i sicrhau bod eu plant yn derbyn eu hawliau:

gwybod beth yw eu hawliau
amddiffyn
darparu cartref cariadus
bod yn eiriolydd i'w llais
cefnogi nhw
gwrando
ffordd iach o fyw
bod yn onest am y brwydrau
codi llais
darparu lle diogel
sicrhau eu bod nhw'n cael y gofal meddygol cywir, e.e. meddyg/deintydd
rhoi anogaeth

Mae CCUHP yn cydnabod rôl allweddol rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn cefnogi plant o ran:

- eu lles pennaf
- amddiffyn eu hawliau
- codi llais drostyn nhw a gwneud yn siŵr bod eu hawliau'n cael eu cyflawni.

**Rydyn ni'n gwneud hyn bob dydd, hyd yn oed os nad ydyn ni'n ymwybodol o hynny. Er enghraifft, wrth fynd at y meddyg neu wrth siarad â'r Feithrinfa neu Athro Ysgol a gofyn am gefnogaeth.**

**Nid cais ychwanegol neu rywbeth fydd yn creu rhagor o waith i chi yw CCUHP.**

**Dyw e ddim chwaith yn golygu bod rhyddid i'ch plentyn wneud beth bynnag maen nhw eisiau pryd bynnag maen nhw eisiau!**

**Mae'n rhoi iaith i chi fedru cefnogi eich plentyn, yn yr ysgol, gyda'r meddyg, neu unrhyw le arall.**

**Os oes angen cefnogaeth arnoch chi i sicrhau hawliau eich plentyn, neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, ewch i:**

Plant yng Nghymru | Hafan

Comisiynydd Plant Cymru (complantcymru.org.uk)

I ddarllen CCUHP yn llawn, ewch i UN Convention on the Rights of the Child - UNICEF UK